Centre of expertise on child sexual abuse

# Negeseuon allweddol o ymchwil ar gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Di McNeish a Sara Scott, DMSS Research

Mehefin 2018

www.csacentre.org.uk

# Negeseuon allweddol

Mae cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu yn cyfeirio at gam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd mewn amgylchedd teulu. Gallai'r troseddwr fod yn perthyn i'r plentyn ond nid ydynt ym mhob achos. Y brif ystyriaeth yw a yw'r unigolyn sy'n cam-drin yn teimlo fel teulu o safbwynt y plentyn.

Mae tua dwy ran o dair o achosion o gam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu hysbysu i'r heddlu yn cael eu cyflawni gan aelod o'r teulu neu rywun sy'n agos i'r plentyn.

Pan fydd ymchwil wedi cofnodi rhyw troseddwyr cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu, canfuwyd bod y mwyafrif helaeth ohonynt yn wrywaidd, er bod menywod yn cam-drin hefyd. Mewn tua chwarter o achosion, mae'r troseddwyr o dan 18 oed.

Anaml iawn y mae cam-drin plant yn rhywiol yn ddigwyddiad unigol a gallai ddigwydd am nifer o flynyddoedd.

Nid yw llawer o achosion o gam-drin yn y teulu yn cael eu datgelu. Efallai bod plant yn ofni'r sawl sy'n eu cam-drin, nid ydynt eisiau i'r sawl sy'n eu cam-drin fynd i helynt, maent yn teimlo mae eu 'bai hwy' oedd y gamdriniaeth ac maent yn teimlo'n gyfrifol am beth fydd yn digwydd i'w teulu os byddant yn dweud wrth rywun. Mae plant anabl a rhai plant o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn wynebu rhwystrau ychwanegol.

Gall camdriniaeth gan aelod o'r teulu achosi trawma penodol oherwydd mae'n ymwneud â lefelau uchel o frad, stigma a chyfrinachedd.

Mae cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu yn gysylltiedig ag amrediad o ganlyniadau negyddol gwahanol yn ystod bywyd, gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol is, incwm is, perthnasoedd anodd a thrais a chamdriniaeth bellach.

Fodd bynnag, nid yw pawb sy'n goroesi camdriniaeth yn profi effeithiau hirdymor. Mae llawer yn dibynnu ar natur a hyd y cam-drin, dulliau ymdopi'r unigolyn a'r cymorth maent yn ei dderbyn. Mae ymatebion cefnogol gan ofalwyr nad ydynt yn cam-drin yn bwysig iawn.

Mae cymorth effeithiol yn hollbwysig er mwyn galluogi pobl i ddatgelu'r hyn sydd wedi digwydd ac yn ystod ymchwiliad a chamau cyfreithiol. Gall cefnogaeth therapiwtig i bobl ifanc gael effaith gadarnhaol ond mae argaeledd gwasanaethau o'r fath yn parhau i fod yn dameidiog.

Mae oedolion a phlant/pobl ifanc sy'n goroesi camdriniaeth yn gwerthfawrogi gwasanaethau sy'n gwrando arnynt, yn credu ynddynt ac sy'n eu parchu; a phan fydd gweithwyr proffesiynol yn ddibynadwy, dilys, optimistaidd a chalonogol, sy'n dangos gofal a thosturi, yn hwyluso dewis, rheolaeth a diogelwch ac sy'n darparu eiriolaeth.

Mae'n bwysig darparu cymorth i'r teulu cyfan, ac yn arbennig i rieni nad ydynt wedi cam-drin, yn dilyn y gamdriniaeth.

Mae ein papurau 'Negeseuon allweddol o ymchwil' yn ceisio darparu gwybodaeth berthnasol a chryno ar gyfer ymarferwyr a chomisiynwyr rheng flaen. Maent yn dod â'r ymchwil diweddaraf at ei gilydd mewn trosolwg hygyrch, sy'n cefnogi darpariaeth hyderus o'r ymatebion gorau posibl i achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

# Beth yw cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu?

Diffiniad Llywodraeth y DU o gam-drin plant yn rhywiol ar gyfer Lloegr yw:

> **'...gorfodi neu gymell plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, nad ydynt o reidrwydd yn cynnwys lefel uchel o drais, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys treiddio (er enghraifft treisio neu ryw geneuol) neu weithredoedd anhreiddiol megis mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i ddillad. Gallant hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt megis cynnwys plant wrth edrych ar, neu wrth gynhyrchu, delweddau rhywiol, gwylio gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol neu feithrin perthynas amhriodol gyda phlentyn er mwyn paratoi i'w cam-drin (gan gynnwys drwy'r rhyngrwyd). Nid dynion sy'n oedolion yn unig sy'n cam-drin yn rhywiol. Gall menywod hefyd gyflawni gweithredoedd o gam-drin rhywiol, yn ogystal â phlant eraill'** (Adran Addysg, 2015:93)

Nid oes un diffiniad pendant o gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu. Fodd bynnag, ceir cydnabyddiaeth gyffredinol, yn ogystal â chamdriniaeth gan berthynas (er enghraifft rhiant, brawd neu chwaer neu ewythr) y gall hyn gynnwys camdriniaeth gan rywun sy'n agos at y plentyn mewn ffyrdd eraill (llys-riant, ffrind agos y teulu neu warchodwr plant, (Horvath et al, 2014). Mae'r ddealltwriaeth hon yn cyd-fynd â chanllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, sy'n datgan:

> **'Mae'r troseddau hyn yn adlewyrchu uned teulu modern ac yn ystyried sefyllfaoedd pan fydd rhywun yn byw ar yr un aelwyd â phlentyn ac sy'n tybio safle o ymddiriedaeth neu awdurdod dros y plentyn hwnnw, yn ogystal â pherthnasoedd sydd wedi'u diffinio gan gysylltiadau gwaed, mabwysiadu, maethu, priodas neu fyw gyda'i gilydd fel partneriaid.'** (Gwasanaeth Erlyn y Goron, 2013)

Wrth ystyried a yw achos o gam-drin yn un o fewn y teulu, efallai mai'r cwestiwn pwysicaf i weithwyr proffesiynol ei ystyried yw: 'A oedd y troseddwr hwn yn teimlo fel aelod o'r teulu i'r plentyn?'

# Nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Mae'n anodd bod yn sicr ynglŷn â nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd. Mae'r amcangyfrifon yn amrywio'n fawr o ran y ffordd mae astudiaethau'n diffinio camdriniaeth a'r dulliau a ddefnyddiwyd, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn seiliedig ar adroddiadau ôl-weithredol gan oedolion. Mae astudiaethau yn awgrymu bod 15-20% o ferched a 7-8% o fechgyn yn profi rhyw fath o gam-drin rhywiol cyn y byddant yn 16 oed (Kelly a Karsna, 2017). Mewn astudiaeth yn y DU a oedd yn cynnwys bron 2,000 o bobl ifanc 18-24 oed, dywedodd 11% eu bod wedi profi rhyw fath o brofiad rhywiol digroeso, a soniodd 6% am weithredoedd rhywiol gorfodol, pan oeddent o dan 18 oed (Radford et al, 2011). Amcangyfrifir bod cam-drin plant yn rhywiol mewn amgylchedd teulu yn cynrychioli hyd at ddwy ran o dair o'r holl achosion o gam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu (Comisiynydd Plant Lloegr, 2015).

Mae'r mwyafrif o achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn cael eu cyflawni gan bobl sy'n adnabyddus i'r plentyn, ac mae'r ffurfiau mwyaf difrifol o gam-drin yn debygol o gynnwys camdrinwyr sy'n aelodau'r teulu, ffrindiau neu'n gydnabod. Mae'r mwyafrif helaeth o droseddwyr cam-drin plant yn rhywiol a nodir, gan gynnwys cam-drin o fewn y teulu, yn wrywaidd, er bod camdriniaeth gan fenywod yn digwydd. Mae data arolwg troseddau yn dangos bod 4% o ymosodiadau rhywiol ar blant o dan 16 oed gan oedolion yn cael eu cyflawni gan dadau, 5% gan lys-dadau ac 1% gan famau, aelodau'r teulu (rhyw anhysbys) yn cyflawni 16% o ymosodiadau o'r fath (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2016). Hefyd, amcangyfrifir bod chwarter yr holl achosion o gam-drin plant yn rhywiol o fewn amgylchedd teulu yn cynnwys troseddwr o dan 18 oed (Comisiynydd Plant Lloegr, 2015).

Gall cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu gynnwys pob math o gam-drin cyswllt a digyswllt, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol ar-lein (Mitchell et al, 2005). Fodd bynnag, ymchwil cyfyngedig sydd ar gael ar sut neu ba mor aml y mae troseddwyr yn defnyddio technoleg o fewn y teulu (DeMarco et al, 2018).

Fel arfer, mae cam-drin o fewn y teulu yn dechrau ar oedran iau na cham-drin plant y tu allan i'r teulu (Fischer a McDonald, 1998), a gall barhau dros nifer o flynyddoedd (Allnock a Miller, 2013).

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd mewn pob math o deuluoedd ac ar draws pob hil ac ethnigrwydd, er bod gwahaniaethau yn y graddau yr adroddir ac yr ymatebir i'r gamdriniaeth. Mae lefelau uchel o gyfrinachedd, cywilydd a stigma mewn rhai grwpiau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), wedi'u cyfuno â rhagdybiaethau diwylliannol gweithwyr proffesiynol gynyddu'r rhwystrau datgelu. Mae plant BAME yn cael eu tangynrychioli yn y gwasanaethau diogelu plant mewn achosion o gam-drin rhywiol (Brown et al, 2011, Gilligan ac Akhtar, 2006).

Mae ymchwil yn dangos bod plant anabl fwy na thair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol, o gymharu â phlant heb anabledd (Sullivan a Knutson, 2000). Mae plant anabl yn aml yn fwy dibynnol ar y rhai sy'n gofalu amdanynt, efallai bod ganddynt ddulliau cyfathrebu mwy cyfyngedig ac efallai y byddant yn llai tebygol o gael eu hystyried fel dioddefwyr posibl. Mae'r ffactorau hyn, wedi'u cyfuno â diffyg gwybodaeth broffesiynol arbenigol, yn gallu arwain at lefelau isel o ddatgelu ac ymatebion annigonol (Jones et al, 2012; Stalker et al, 2010).

Er bod y rhan fwyaf o ymchwil yn gysylltiedig â cham-drin rhywiol sy'n cael ei gyflawni gan aelodau unigol teuluoedd, gall teuluoedd hefyd fod yn gysylltiedig ag achosion o gam-drin plant wedi'i drefnu, sy'n cynnwys nifer o droseddwyr (Salter, 2013), neu gam-fanteisio'n rhywiol ar blant (Berelowitz et al, 2013).

# Adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Un o'r anawsterau o amcangyfrif nifer yr achosion yw nad yw nifer uchel iawn o achosion o gam-drin rhywiol yn cael eu datgelu. Amcangyfrifir mai dim ond un o bob wyth o ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol yn yr amgylchedd teulu sy'n dod i sylw'r awdurdodau statudol (Comisiynydd Plant Lloegr, 2015). Mae achosion o blant yn datgelu hyn yn brin, felly mae angen i weithwyr proffesiynol ac oedolion cyfrifol eraill allu sylwi ar arwyddion cam-drin posibl a chymryd camau priodol.

Ymhlith y rhesymau pam fod plant yn cadw'n dawel yw eu bod yn ofni'r sawl sy'n eu cam-drin, nid ydynt eisiau i'r sawl sy'n eu cam-drin fynd i helynt, maent yn teimlo mai 'eu bai hwy' oedd y cam-drin ac maent yn teimlo'n gyfrifol am beth fydd yn digwydd i'w teulu os byddant yn dweud. Mae plant yn cydnabod pwysigrwydd dweud ond maent yn credu na fyddai'r rhan fwyaf o blant yn eu sefyllfa hwy yn gallu datgelu (Warrington et al, 2017). Yn ogystal, nid yw nifer o ddioddefwyr sy'n blant yn deall eu bod yn cael eu cam-drin am gyfnod hir, yn aml nes y byddant yn oedolion (Radford et al, 2011; Priebe a Svedin, 2008).

Nid yw nifer o blant yn 'dweud' mewn ffordd syml, yn hytrach mae eu hymddygiad a'u hymarweddiad neu nodweddion neu ymddygiad y rhai sy'n gofalu amdanynt yn awgrymu bod rhywbeth o'i le (Cossar et al, 2010; Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, 2017). Nid yw'r rhai sydd yn dweud bob amser yn cael eu clywed neu eu credu ac, fel y nodwyd uchod, mae rhai grwpiau o blant megis plant anabl a phlant BAME yn wynebu mwy o rwystrau rhag datgelu. Gall plant sy'n cael eu cam-drin gan aelod benywaidd o'r teulu wynebu lefelau uwch o anghrediniaeth gan weithwyr proffesiynol, a allai israddio difrifoldeb camdriniaeth o'r fath (Clements et al, 2014).

Ymhlith yr hwyluswyr pwysig sy'n galluogi plant i ddweud, mae cael mynediad at oedolion diogel sydd â'r sgiliau i wrando, a chael cyfle i gasglu gwybodaeth ac archwilio canlyniadau datgelu, yn gyfrinachol (Jackson et al, 2015).

# Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol gan aelodau'r teulu

Mae'r berthynas gymhleth rhwng cam-drin rhywiol ac agweddau eraill ar fywyd unigolyn yn golygu nad yw fel arfer yn bosibl dweud bod canlyniad wedi'i achosi gan eu profiad o gam-drin plant yn rhywiol. Ymhlith y ffactorau a allai ddylanwadu ar effaith camdriniaeth mae ei ddifrifoldeb a'i hyd, yr oedran y digwyddodd hyn, y berthynas rhwng dioddefwr a throseddwr ac anawsterau a mathau eraill o gymorth ym mywyd y plentyn (Allnock, 2016). Nid oes ymchwil ar hyn o bryd sy'n gwahaniaethu effaith cam-drin o fewn y teulu yn ôl rhyw y sawl sy'n cam-drin neu'r dioddefwr.

Mae model dylanwadol (Finkelhor a Browne, 1986) yn cynnig pedair o effeithiau tebygol cam-drin plant yn rhywiol:

1) **Rhywioli trawmatig** (lle bydd rhywioldeb, teimladau ac agweddau rhywiol yn datblygu'n amhriodol).
2) Ymdeimlad o **frad** (oherwydd y niwed a achoswyd gan rywun y mae'r plentyn yn gwbl ddibynnol arnynt).
3) Ymdeimlad o **ddiymadferthedd** (oherwydd bod ewyllys y plentyn yn cael ei dramgwyddo'n gyson).
4) **Difrïo** (lle bydd cywilydd neu euogrwydd yn cael eu hatgyfnerthu ac yn dod yn rhan o hunanddelwedd y plentyn).

Gellir ychwanegu **cyfrinachedd** (gan gynnwys yr ofn a'r unigedd a achosir gan hyn) a **dryswch** (oherwydd bod y plentyn yn gysylltiedig ag ymddygiad sy'n teimlo'n anghywir ond sydd wedi'i gymell gan oedolion y maent yn ymddiried ynddynt) i'r rhestr hon (Glaser, 1991). Er nad yw'r effeithiau hyn yn unigryw i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu, mae eu cyfuniad a'u dwyster yn y cyd-destun hwn yn gwneud y profiad yn un arbennig o niweidiol.

Mae cyswllt cryf rhwng cam-drin plant yn rhywiol a'r canlyniadau niweidiol canlynol ar draws bywyd unigolion (Fisher et al, 2017):

- problemau iechyd corfforol, gan gynnwys effeithiau uniongyrchol a salwch ac anabledd hirdymor (Heger et al, 2002; Allnock et al, 2015)
- iechyd a lles meddyliol gwael (One in Four, 2015; Chen et al, 2010; Maniglio, 2009)
- allanoli ymddygiadau megis camddefnyddio sylweddau, ymddygiad rhywiol 'peryglus', a throseddu (One in Four, 2015; Maniglio, 2009; Ogloff et al, 2012)
- anawsterau mewn perthnasoedd rhyngbersonol (Kia-Keating et al, 2010; Kristensen a Lau, 2011; Liang et al, 2006; Seltmann a Wright, 2013; One in Four, 2015; Allbaugh et al, 2014; Sneddon et al, 2016)
- effeithiau economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys lefelau addysg ac incwm is (Boden et al, 2007; Fergusson et al, 2013; Pereira et al, 2017; Nelson, 2009; Barrett et al, 2014; Lee a Tolman, 2006)
- perygl o fod yn ddioddefwyr unwaith eto, fel plentyn ac oedolyn (Filipas ac Ullman, 2006; Barnes et al, 2009; Sneddon et al, 2016; Finkelhor et al, 2007).

Fodd bynnag, nid yw pob plentyn sy'n profi cam-drin rhywiol yn dioddef canlyniadau difrifol (Sneddon et al, 2016).

Mae'r canlyniadau gwaethaf yn dueddol o gael eu profi gan blant lle mae cam-drin rhywiol wedi'i gyfuno ag anawsterau eraill (er enghraifft profedigaeth) a/neu fathau eraill o gam-drin (Finkelhor et al, 2007), ac mae ymchwil diweddar yn awgrymu mai'r croniad o erledigaeth ar draws bywyd sy'n cael yr effeithiau mwyaf negyddol (Scott et al, 2015).

Gall nifer o ffactorau gyfrannu at wydnwch unigolyn i effeithiau cam-drin plant yn rhywiol, ar adeg y cam-drin ac yn ddiweddarach mewn bywyd (Kogan, 2005; Ullman a Brecklin, 2002; Salter et al, 2003). Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys hunan-fri neu hunanddibyniaeth, datblygu strategaethau ymdopi cadarnhaol a'r cymorth anffurfiol mae plentyn yn ei dderbyn gan oedolion yn eu bywyd, neu drwy'r ysgol, grwpiau crefyddol neu glybiau cymdeithasol (Allnock a Hynes, 2009).

# Ymatebion effeithiol i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Mae oedolion a phlant sy'n oroeswyr yn gwerthfawrogi gwasanaethau sy'n gwrando, yn eu credu a'u parchu. Mae yna lefel uwch o foddhad yn aml gyda gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol – gan gynnwys canolfannau argyfwng trais, gwasanaethau cwnsela a chynghorwyr trais rhywiol annibynnol – o gymharu â gwasanaethau statudol megis yr heddlu, ysbytai a gofal cymdeithasol (Smith et al, 2015).

Nid yw llawer o blant sy'n profi cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu yn derbyn unrhyw gymorth am nad yw'r cam-drin yn cael ei ddatgelu. Os bydd datgeliad yn cael ei wneud, gall ymatebion proffesiynol ac argaeledd proffesiynol amrywio'n fawr iawn (Smith et al, 2015; Comisiynydd Plant Lloegr,2015). Er bod plant a phobl ifanc yn pwysleisio pwysigrwydd cael eu cefnogi yn dilyn datgeliad, mae eu profiadau'n awgrymu nad yw gwasanaethau yn eu cefnogi'n aml drwy'r prosesau amddiffyn plant a phrosesau cyfreithiol anodd. Mae plant yn gwerthfawrogi cefnogaeth gan weithwyr proffesiynol sy'n ddibynadwy, dilys, optimistaidd a chalonogol, sy'n dangos gofal a thosturi, yn hwyluso dewis, rheolaeth a diogelwch ac sy'n darparu eiriolaeth (Warrington et al, 2017).

## Ymatebion amddiffyn plant

Mae nifer y plant ar gynlluniau amddiffyn plant oherwydd cam-drin rhywiol wedi gostwng yn sylweddol yn yr 20 mlynedd ddiwethaf: dyma'r categori cofrestru isaf yn awr, ac mae'n llawer is na'r categorïau ar gyfer esgeulustod a cham-drin emosiynol. Mae yna amrywiaethau rhanbarthol sylweddol hefyd. Nid oes unrhyw ymchwil i esbonio'r tueddiadau hyn, ond gallwn fod yn eithaf sicr nad ydynt wedi digwydd oherwydd gostyngiad yn nifer yr achosion. Yn wir, yn ystod yr un cyfnod, mae'r heddlu wedi cofnodi cynnydd mawr yn nifer y troseddau sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol (Kelly a Karsna, 2017:19).

Mae'n bosibl bod yr ystadegau amddiffyn plant yn adlewyrchu newidiadau i dueddiadau o ran blaenoriaethau, gyda rhai mathau o gam-drin rhywiol yn gostwng i lawr yr agenda wrth i awdurdodau lleol ac asiantaethau partner ganolbwyntio'n benodol ar gam-fanteisio'n rhywiol ar blant a blaenoriaethu materion eraill megis effaith trais domestig ar blant. Mae'n bosibl bod hyn hefyd yn adlewyrchu pryderon proffesiynol/sefydliadol ynglŷn â cham-drin domestig yn y cartref: gall yr heriau o sicrhau datgeliad, goresgyn gwadiad a chanfod ffyrdd o amddiffyn plant mewn cyd-destun teuluol cymhleth greu teimladau o ddiymadferthedd proffesiynol (Lovett et al, 2018; Nelson, 2016).

Mae goresgyn yr heriau hyn yn galw am weithwyr proffesiynol hyderus, sy'n gallu gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant, a system amddiffyn plant sy'n gefnogol, yn hytrach nac un fiwrocrataidd ac sy'n canolbwyntio ar dargedau. (Munro, 2011). Mae cynlluniau diweddar i gyflawni newid o'r fath wedi pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn cyfuno empathi a chydweithio gyda diben ac awdurdod, goruchwyliaeth adlewyrchol dda, mynediad at arbenigedd, a'r defnydd o dimau amlddisgyblaeth gan gynnwys arbenigwyr sy'n oedolion ym maes iechyd meddwl neu drais domestig yn gweithio ochr yn ochr ag ymarferwyr plant (McNeish et al, 2017).

## Ymyriadau cyfiawnder troseddol

Er gwaethaf y cynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu hadrodd a'u hymchwilio, nifer gymharol isel o achosion sy'n cyrraedd Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac mae nifer is yn cyrraedd y llysoedd (Horvath et al, 2014). Un ffactor yw'r methiant i ddilyn canllawiau arfer da ar Gyflawni'r Dystiolaeth Orau mewn cyfweliadau, sy'n hollbwysig yn absenoldeb tystiolaeth gorfforol a thystiolaeth gadarnhaol arall (Davidson et al, 2012; Davidson a Bifulco, 2009; Davidson et al, 2006).

Gall prosesau cyfreithiol achosi trawma o'r newydd i ddioddefwyr. Pan fydd achosion yn cyrraedd y llys, mae oedi hir wrth aros am dreial, mae defnydd isel o fesurau i helpu plant i roi'r dystiolaeth orau a thechnegau croesholi ymosodol (Connon et al, 2011; Eastwood, 2003; Westcott a Page, 2002). I amddiffyn buddiannau plant, yn ogystal â sicrhau collfarnau, mae angen system sy'n fwy ystyriol o blant ac sy'n fwy ymatebol (Allnock et al, 2015).

## Cymorth therapiwtig

Gellir darparu cymorth therapiwtig i blant a phobl ifanc sy'n profi cam-drin yn y teulu gan asiantaethau'r sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat. Fodd bynnag, mae prinder gwasanaethau o'r fath ac mae'r ddarpariaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol ardaloedd (Allnock a Hynes, 2009; Allnock et al, 2015; Galloway et al, 2017).

Mae ymchwil i effeithiolrwydd cymorth therapiwtig i blant yn dilyn cam-drin plant yn rhywiol wedi adrodd canlyniadau cymysg. Casgliad adolygiad systemataidd oedd y gallai therapi ymddygiad gwybyddol (CBT) gael effaith gadarnhaol ar iselder, anhwylder straen wedi trawma a symptomau gorbryder, er nad oedd y rhan fwyaf o'r canlyniadau yn arwyddocaol yn ystadegol (MacDonald et al, 2012). Roedd adolygiad tebyg o seicotherapi yn amhendant (Parker a Turner, 2014), er bod un prawf ar hap yn y DU wedi canfod bod seicotherapi grŵp ac unigol ar gyfer merched sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol yn effeithiol – yn arbennig mewn cysylltiad â straen wedi trawma (Trowell et al, 2002).

Roedd prawf rheoli ar hap a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y DU (y prawf mwyaf hyd yma a gynhaliwyd o ymyrraeth ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol) yn werthusiad o raglen yr NSPCC 'Gadael y Dyfodol i Mewn', a gyflwynwyd mewn 20 o wasanaethau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn ystod y cam olrhain ar ôl chwe mis, canfuwyd tystiolaeth o lai o anawsterau emosiynol a symptomau trawma difrifol i blant dros 8 oed a dywedodd y plant eu hunain bod ganddynt fwy o hyder, llai o hunan-feio, iselder, gorbryder a dicter, patrymau cysgu gwell a dealltwriaeth well o ymddygiad rhywiol priodol (Carpenter et al, 2016).

## Ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu

Mae ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan yn ogystal â'r plentyn unigol yn bwysig (Carpenter et al, 2016; Horvath et al, 2014). Mae plant a phobl ifanc yn aml yn teimlo'n gyfrifol am drallod eu teulu yn dilyn cam-drin rhywiol, ac mae'n bosibl lleihau hyn drwy ddarparu cymorth i'r aelodau o'r teulu nad ydynt wedi cam-drin (Warrington et al, 2017).

Mae datgelu cam-drin plant yn rhywiol yn argyfwng bywyd arwyddocaol i riant nad ydynt yn cam-drin, ac mae'n aml yn cael effaith ar eu hiechyd meddwl yn yr hirdymor (Humphreys, 1995; Lipton, 1997; Elliott a Carnes, 2001; Hill, 2001). Gall hyn fod yn arbennig o wir os ydynt hwy wedi profi cam-drin eu hunain yn eu plentyndod. Mae plant yn fwy tebygol o ddatgelu i'r rhiant nad yw'n eu cam-drin nac i unrhyw un arall (Warrington et al, 2017), ac mae'r ffordd y bydd y rhiant nad ydynt yn eu cam-drin yn ymateb i'r datgeliad o gamdriniaeth eu plentyn yn hollbwysig, gyda chefnogaeth dda gan rieni yn gysylltiedig ag addasiad gwell ymhlith plant (Elliott a Carnes, 2001; Kendall-Tackett et al, 1993). Mae rhai ymchwilwyr o'r farn felly bod anghenion cefnogaeth gofalwyr nad ydynt yn cam-drin yn anwahanadwy oddi wrth anghenion cefnogaeth eu plentyn, ac na ddylai gweithwyr proffesiynol ddiystyru eu trallod hwy hefyd. (van Toledo a Seymour, 2013).

Mae canfyddiadau o CBT ar sail trawma yn cyfeirio at bwysigrwydd cyfranogiad ac addysg gofalwyr er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a lleihau straen gofalwyr (Macdonald et al, 2012). Nododd adolygiad o 56 o adolygiadau systemataidd dystiolaeth gref bod CBT i rieni nad ydynt yn cam-drin a phlant oedran ysgol yn effeithiol ar gyfer atal dirywiad i iechyd meddwl plentyn a/neu achosion eraill o gamdriniaeth (Stewart-Brown a Schrader-McMillan, 2011; Corcoran a Pillai, 2008). Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod darparu ymyriadau mwy cyffredin i rieni (gan gynnwys tapiau fideo cyfarwyddiadol ar sail damcaniaeth dysgu cymdeithasol) a ddarparwyd i riant ar adeg datgelu'r cam-drin rhywiol wedi creu buddiannau i'r rhieni a'r plant (Stewart-Brown a Schrader-McMillan, 2011).

Mae rhieni yn gwerthfawrogi grwpiau cymorth i rieni, yn arbennig y rhai sy'n cyfuno cefnogaeth gyda gwybodaeth am ddynameg ac effeithiau cam-drin a chyngor ymarferol ar sut i ddelio â theimladau ac ymddygiad plant. Mae rhieni sydd wedi cymryd rhan mewn grwpiau o'r fath wedi datgan lefelau uwch o lesiant a hyder, llai o straen a gallu gwell i ofalu am eu plentyn a delio â gweithwyr proffesiynol. Mae grwpiau sy'n helpu cyfranogwyr i ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol hollbwysig gyda phobl eraill sy'n rhannu'r un profiadau yn helpu i normaleiddio ymddygiad plant, a gallai leihau iselder. (van Toledo a Seymour, 2013; Hernandez et al, 2009).

# Cyfeiriadau


Adran Addysg (2015) *Working Together to Safeguard Children: A Guide to Inter-agency Working to Safeguard and Promote the Welfare of Children*. Llundain: DfE.

Allbaugh, L., Wright, M. a Seltmann, L. (2014) An exploratory study of domains of parenting concern among mothers who are childhood sexual abuse survivors. *Journal of Child Sexual Abuse, 23(8):885–899*.

Allnock, D. (2016) *Exploring the Relationship between Neglect and Adult-perpetrated Intra-familial Child Sexual Abuse: Evidence Scope 2*. Totnes: Research in Practice.

Allnock, D. a Hynes, P. (2012) *Therapeutic Services for Sexually Abused Children and Young People: Scoping the Evidence Base. Summary Report*. Llundain: NSPCC.

Allnock, D., Hynes, P. ac Archibald, M. (2015) Self-reported experiences of therapy following child sexual abuse: Messages from a retrospective survey of adult survivors. *Journal of Social Work*, 15(2):115–137.

Allnock, D. a Miller, P. (2013) *No One Noticed, No One Heard: A Study of Disclosures of Childhood Abuse*. Llundain: NSPCC.

Barnes, J., Noll, J., Putnam, F. a Trickett, P. (2009) Sexual and physical revictimization among victims of severe childhood sexual abuse. *Child Abuse & Neglect*, 33(7):412–420.

Barrett, A., Kamiya, Y. ac O'Sullivan, V. (2014) Childhood sexual abuse and later-life economic consequences. *Journal of Behavioral and Experimental Economics*, 53:10–16.

Berelowitz, S., Clifton, J., Firmin, C., Gulyurtlu, S. and Edwards, G. (2013) *"If Only Someone Had Listened." The Office of the Children's Commissioner's Inquiry into Child Sexual Exploitation in Gangs and Groups. Final Report*. Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Boden, J. Horwood, L. a Fergusson, D. (2007) Exposure to childhood sexual and physical abuse and subsequent educational achievement outcomes. *Child Abuse & Neglect*, 31(10):1101–1114.

Brown, J., O'Donnell, T. ac Erooga, M. (2011) *Sexual Abuse: A Public Health Challenge*. Llundain: NSPCC.

Carpenter, J., Jessiman, T., Patsios, D., Hackett, S. a Phillips, J. (2016) Letting the Future In: A Therapeutic Intervention for Children Affected by Sexual Abuse and their Carers. An Evaluation of Impact and Implementation. Llundain: NSPCC.

Chen, L., Murad, M., Paras, M., Colbenson, K., Sattler, A., Goranson, E., Elamin, M., Seime, R., Shinozaki, G., Prokop, L. a Zirakzadeh, A. (2010) Sexual abuse and lifetime diagnosis of psychiatric disorders: Systematic review and meta-analysis. *Achosion Clinig Mayo*, 85(7):618–629.

Clements, H., Dawson, D. a das Nair, R. (2014) Female perpetrated sexual abuse: A review of victim and professional perspectives. *Journal of Sexual Aggression*, 20(2):197–215.

Comisiynydd Plant Lloegr (2015) *Protecting Children from Harm: A Critical Assessment of Child Sexual Abuse in the Family Network in England and Priorities for Action*. Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Connon, G., Crooks, A., Carr, A., Dooley, B., Guerin, S., Deasy, D., O'Shea, D., Ryan, I. ac O'Flaherty, A. (2011) Child sex abuse and the Irish criminal justice system. *Child Abuse Review*, 20(2):102–119.

Corcoran, J. a Pillai, V. (2008) A meta-analysis of parent-involved treatment for child sexual abuse. *Research on Social Work Practice*, 18(5), 453–464.

Cossar, J., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Biggart, L. a Sharpe, D. (2013) *'It Takes a Lot to Build Trust'. Recognition and Telling: Developing Earlier Routes to Help for Children and Young People*. Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Davidson, J. a Bifulco, A. (2009) Investigating police practice in the UK: Achieving best evidence in work with young victims of abuse. *Pakistan Journal of Criminology*, 1(3):19–46.

Davidson, J., Bifulco, A., Grove-Hills, J. a Chan, J. (2012) *An Exploration of Metropolitan Police Investigative Practices with Child Victims of Sexual Abuse*. Llundain: Y Ganolfan Astudiaethau Cam-drin a Thrawma, Prifysgol Kingston.

Davidson, J., Bifulco, A., Thomas, G. a Ramsay, M. (2006) Child victims of sexual abuse: Children's experience of the investigative process in the criminal justice system. *Practice*, 18(4):247–263.

DeMarco, J. Sharrock, S., Crowther, T. a Barnard, M. (2018) *Behaviour and Characteristics of Perpetrators of Online-facilitated Child Sexual Abuse and Exploitation: A Rapid Evidence Assessment*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Eastwood, C. (2003) *The Experiences of Child Complainants of Sexual Abuse in the Criminal Justice System (Trends & Issues in Crime and Criminal Justice, No. 250)*. Canberra: Sefydliad Troseddeg Awstralia.

Elliott, A. a Carnes, C. (2001) Reactions of nonoffending parents to the sexual abuse of their child: A review of the literature. *Child Maltreatment*, 6(4):314– 331.

Fergusson, D., McLeod, G. a Horwood, L. (2013) Childhood sexual abuse and adult developmental outcomes: Findings from a 30-year longitudinal study in New Zealand. *Child Abuse & Neglect*, 37(9):664–674.

Filipas, H. a Ullman, S. (2006) Child sexual abuse, coping responses, self-blame, posttraumatic stress disorder, and adult sexual revictimization. *Journal of Interpersonal Violence*, 21(5):652–672.

Finkelhor, D. a Browne, A. (1986) Initial and long-term effects: A conceptual framework. Yn Finkelhor, D. (gol.) *A Sourcebook on Child Sexual Abuse*. Beverly Hills: Sage.

Finkelhor, D., Ormrod, R. a Turner, H. (2007) Poly-victimization: A neglected component in child victimization. *Child Abuse & Neglect*, 31(1):7–26.

Fischer, D. a McDonald, W. (1998) Characteristics of intrafamilial and extrafamilial child sexual abuse. *Child Abuse & Neglect*, 22(9):915–929.

Fisher, C., Goldsmith, A., Hurcombe, R. a Soares, C. (2017) *The Impacts of Child Sexual Abuse: A Rapid Evidence Assessment. Summary Report*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Galloway, S., Love, R. a Wales, A. (2017) *The Right to Recover: Therapeutic Services for Children and Young People following Sexual Abuse. An Overview of Provision in the West of Scotland*. Llundain: NSPCC.

Gilligan, P. Ac Akhtar, A. (2006) Cultural barriers to the disclosure of child sexual abuse in Asian communities: Listening to what women say. *The British Journal of Social Work*, 36(8):1361–1377.

Glaser, D. (1991) Treatment issues in child sexual abuse. The British Journal of Psychiatry, 159(6):769–782.

Gwasanaeth Erlyn y Goron (2013) *Guidelines on Prosecuting Cases of Child Sexual Abuse*. Llundain: CPS.

Heger, A., Ticson, L., Velasquez, O. a Bernier, R. (2002) Children referred for possible sexual abuse: Medical findings in 2,384 children. *Child Abuse & Neglect*, 26(6-7):645–659.

Hernandez, A., Ruble, C., Rockmore, L., McKay, M., Messam, T. a Harris, M. (2009) An integrated approach to treating non-offending parents affected by sexual abuse. *Social Work in Mental Health*, 7(6):533–555.

Hill, A. (2001) 'No-one else could understand': Women's experiences of a support group run by and for mothers of sexually abused children. *The British Journal of Social Work*, 31(3):385–397.

Horvath, M., Davidson, J., Grove-Hills, J., Gekoski, A., a Choak, C. (2014) *"It's a Lonely Journey": A Rapid Evidence Assessment on Intrafamilial Child Sexual Abuse*. Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Humphreys, C. (1995) Counselling and support issues for mothers and fathers of sexually abused children. *Australian Social Work*, 48(4), 13–20.

Jackson, S., Newall, E. a Backett-Milburn, K. (2015) Children's narratives of sexual abuse. *Child & Family Social Work*, 20(3):322–332.

Jones, L., Bellis, M., Wood, S., Hughes, K., McCoy, E., Eckley, L., Bates, G., Mikton, C., Shakespeare, T. ac Officer, A. (2012) Prevalence and risk of violence against children with disabilities: A systematic review and meta-analysis of observational studies. *The Lancet*, 380(9845):899–907.

Kelly, L. a Karsna, K. (2017) *Measuring the Scale and Changing Nature of Child Sexual Abuse and Child Sexual Exploitation: Scoping Report*. Barkingside: Y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

Kendall-Tackett, K., Williams, L. a Finkelhor, D. (1993) Impact of sexual abuse on children: A review and synthesis of recent empirical studies. *Psychological Bulletin*, 113(1):164–180.

Kia-Keating, M., Sorsoli, L. a Grossman, F. (2010) Relational challenges and recovery processes in male survivors of childhood sexual abuse. *Journal of Interpersonal Violence*, 25(4):666–683.

Kogan, S. (2005) The role of disclosing child sexual abuse on adolescent adjustment and revictimization. *Journal of Child Sexual Abuse*, 14(2):25–47.

Kristensen, E. a Lau, M. (2011) Sexual function in women with a history of intrafamilial childhood sexual abuse. *Sexual and Relationship Therapy*, 26(3):229–241.

Lee, S. a Tolman, R. (2006) Childhood sexual abuse and adult work outcomes. *Social Work Research*, 30(2):83–92.

Liang, B., Williams, L. a Siegel, J. (2006) Relational outcomes of childhood sexual trauma in female survivors: A longitudinal study. *Journal of Interpersonal Violence*, 21(1):42–57.

Lipton, M. (1997) The effect of the primary caretaker's distress on the sexually abused child: A comparison of biological and foster parents. *Child and Adolescent Social Work Journal*, 14(2):115–127.

Lovett, J., Coy, M. a Kelly, L. (2018) *Deflection, Denial and Disbelief: Social and Political Discourses about Child Sexual Abuse and Their Influence on Institutional Responses. A Rapid Evidence Assessment*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

MacDonald, G., Higgins, J., Ramchandani, P., Valentine, J., Bronger, L., Klein, P., O'Daniel, R., Pickering, M., Rademaker, B., Richardson, G. a Taylor, M. (2012) Cognitive-behavioural interventions for children who have been sexually abused. *Cochrane Database of Systematic Reviews*, 2012(5): erthygl CD001930.

McNeish, D. gyda Sebba, J., Luke, N. a Rees, A. (2017) *What Have We Learned about Good Social Work Systems and Practice? Children's Social Care Innovation Programme Thematic Report 1*. Rhydychen: Canolfan Rees ar gyfer Ymchwil i Faethu ac Addysg.

Maniglio, R. (2009) The impact of child sexual abuse on health: A systematic review of reviews. *Clinical Psychology Review*, 29(7):647–657.

Mitchell, K., Finkelhor, D. a Wolak, J. (2005) The internet and family and acquaintance sexual abuse. *Child Maltreatment*, 10(1):49–60.

Munro, E. (2011) *The Munro Review of Child Protection: Final report – A Child-centred System*. Llundain: Adran Addysg.

Nelson, S. (2016) *Tackling Child Sexual Abuse: Radical Approaches to Prevention, Protection and Support*. Bryste: Policy Press.

Nelson, S. (2009) *Care and Support Needs of Men Who Survived Childhood Sexual Abuse: Report of a Qualitative Research Project*. Caeredin: Prifysgol Caeredin.

Ogloff, J., Cutajar, M., Mann, E. a Mullen, P. (2012) *Child Sexual Abuse and Subsequent Offending and Victimisation: A 45 Year Follow-up Study (Trends & Issues in Crime and Criminal Justice, No. 440)*. Canberra: Sefydliad Troseddeg Awstralia

One in Four (2015) *Survivors' Voices: Breaking the Silence on Living with the Impact of Child Sexual Abuse in the Family Environment*. Llundain: One in Four.

Parker, B. a Turner, W. (2014) Psychoanalytic/psychodynamic psychotherapy for sexually abused children and adolescents: A systematic review. *Research on Social Work Practice*, 24(4):389–399.

Pereira, S., Li, L. a Power, C. (2017) Child maltreatment and adult living standards at 50 years. *Pediatrics*, 139(1): e20161595.

Priebe, G. a Svedin, C. (2008) Child sexual abuse is largely hidden from the adult society: An epidemiological study of adolescents' disclosures. *Child Abuse & Neglect*, 32(12):1095–1108.

Radford, L., Corral, S., Bradley, C., Fisher, H., Bassett, C., Howat, N. a Collishaw, S. (2011) *Child Abuse and Neglect in the UK Today*. Llundain: NSPCC.

Salter, D., McMillan, D., Richards, M., Talbot, T., Hodges, J., Bentovim, A., Hastings, A., Stevenson, J. a Skuse, D. (2003) Development of sexually abusive behaviour in sexually victimised males: A longitudinal study. *The Lancet*, 361(9356):471–476.

Salter, M. (2013) *Organized Sexual Abuse*. Efrog Newydd: Routledge.

Scott, S., Williams, J., McNaughton Nicholls, C., McManus, S., Brown, A., Harvey, S., Kelly, L a Lovett, J. (2015) *Violence, Abuse and Mental Health in England: Population Patterns (Responding Effectively to Violence and Abuse, Briefing 1)*. Llundain: Ymchwil Cymdeithasol NatCen.

Seltmann, L. ac Wright, M. (2013) Perceived parenting competencies following childhood sexual abuse: A moderated mediation analysis. *Journal of Family Violence*, 28(6):611–621.

Smith, N., Dogaru, C. ac Ellis, F. (2015) *Hear Me. Believe Me. Respect Me. A Survey of Adult Survivors of Child Sexual Abuse and Their Experiences of Support Services – Executive Summary*. Ipswich: Campws Prifysgol Suffolk.

Sneddon, H., Wager, N. ac Allnock, D. (2016) *Responding Sensitively to Survivors of Child Sexual Abuse: An Evidence Review*. Llundain: Cymorth i Ddioddefwyr.

Stalker, K., Green Lister, P., Lerpiniere, J. a McArthur, K. (2010) *Child Protection and the Needs and Rights of Disabled Children and Young People: A Scoping Study*. Glasgow: Prifysgol Strathclyde.

Stewart-Brown, S. a Schrader-McMillan, A. (2011) Parenting for mental health: What does the evidence say we need to do? Report of work package 2 of the DataPrev project. *Health Promotion International*, 26(S1):i10–i28.

Sullivan, P. a Knutson, J. (2000) Maltreatment and disabilities: A population-based epidemiological study. *Child Abuse & Neglect*, 24(10):1257–1273.

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) *Abuse during Childhood: Findings from the Crime Survey for England and Wales, Year Ending March 2016*. Titchfield: Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Trowell, J., Kolvin, I., Weeramanthri, T., Sadowski, H., Berelowitz, M., Glasser, D. a Leitch, I. (2002) Psychotherapy for sexually abused girls: psychopathological outcome findings and patterns of change. *The British Journal of Psychiatry*, 180(3):234–247.

Ullman, S. a Brecklin, L. (2002) Sexual assault history and suicidal behavior in a national sample of women. *Suicide and Life-Threatening Behavior*, 32(2):117–130.

van Toledo, A. a Seymour, F. (2013) Interventions for caregivers of children who disclose sexual abuse: A review. *Clinical Psychology Review*, 33(6):772–781.

Warrington, C. gyda Beckett, H., Ackerley, E., Walker, M. ac Allnock, D. (2017) *Making Noise: Children's Voices for Positive Change after Sexual Abuse*. Luton: Prifysgol Swydd Bedford.

Westcott, H. a Page, M. (2002) Cross-examination, sexual abuse and child witness identity. *Child Abuse Review*, 11(3):137–152.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (2017) *Child Abuse and Neglect (Canllaw NICE NG76)*. Llundain: NICE.

## Papurau eraill yn y gyfres ‘Negeseuon allweddol o ymchwil’

Camfanteisio’n rhywiol ar blant:

- Negeseuon allweddol ar gyfer staff sy’n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- Negeseuon allweddol ar gyfer yr heddlu
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau’r heddlu yn strategol
- Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau ysgol
- Negeseuon allweddol ar gyfer gwaith aml-asiantaeth
- Bylchau yn y sylfaen wybodaeth

Plant a phobl ifanc sy’n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol *(I’w gyhoeddi yn ystod haf 2018)*

Troseddwyr sy’n oedolion sy’n cam-drin plant yn rhywiol *(i’w gyhoeddi yn ystod haf 2018)*

Cam-drin plant yn rhywiol sefydliadol *(I’w gyhoeddi yn ystod 2018)*

Ewch i **www.csacentre.org.uk/research-publications/key-messages**

Centre of expertise on child sexual abuse

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

20006 ag18